**Cylch Gorchwyl Pwyllgor:**

**BWRDD DARPARIAETH GYDWEITHREDIADOL**

Yn adrodd i'r: Senedd

Yn cyfarfod: dair gwaith y flwyddyn o leiaf

*Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Medi 2018; y diwygiadau diwethaf: Medi 2018; i'w adolygu nesaf: Medi 2020*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (Cadeirydd)<br>• Deoniaid Cyswllt y Cyfadrannau, Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr (x3)<br>• Tri aelod a enwebwyd, un gan bob Cyfadran<br>• Y Cofrestrydd Academaidd<br>• Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr<br>• Rheolwr Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg<br>• Un cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr<br>• Un cynrychiolydd o Gwasanaethau Gwybodaeth<br>• Cyfarwyddwr y Swyddfa Ryngwladol<br>• Un cynrychiolydd o'r Swyddfa Gynllunio<br>• Pennaeth y Ganolfan Saesneg Ryngwladol<br><br>15 aelod.<br>Cworwm: 5 aelod | • Dirprwy Gofrestrydd (Partneriaethau) (Ysgrifennydd)<br><br>Os yw'r Cadeirydd yn barnu bod hynny'n briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd. |

Cyfrifoldebau: Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol sy'n gyfrifol am reoli ac arolygu gweithgaredd cydweithrediadol y Brifysgol ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, ac am sicrwydd ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgeisio amdanynt, eu hasesu, ac adolygu'r holl drefniadau cydweithrediadol; a sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael os gwneir cais i'w hadolygu. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni disgwyliadau Cod Ansawdd y DU, Pennod B10, 'Managing Higher Education Provision with Others' ac eithrio 'Work-based Learning', sy'n rhan o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Profiad y Myfyriwr.

Cylch Gorchwyl:

1. ystyried ac argymell y dylai'r Senedd gymeradwyo:
   a. Newidiadau i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd sy'n berthnasol i'r Ddarpariaeth Gydweithrediadol (adran 8).
   b. Sefydlu trefniadau cydweithrediadol newydd yn unol â'r gweithdrefnau a welir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.
2. Ystyried ac arddel yr awdurdod i gymeradwyo ar ran y Senedd:
   a. Asesu pob cynnig cychwynnol am weithgareddau cydweithrediadol sy'n arwain at ddyfarnu credyd y Brifysgol, a phenderfynu a ydynt yn symud ymlaen i gam nesaf y drefn gymeradwyo.
3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Senedd fel y bo'n briodol ar:
   a. Weithgareddau'r Brifysgol yn gysylltiedig â Chod Ansawdd y DU, Pennod B10: 'Managing Higher Education Provision with Others'.
   b. Rheoli ac arolygu gweithgaredd cydweithrediadol y Brifysgol, gan gynnwys gweithredu strategaeth ryngwladol y Brifysgol yng nghyd-destun y ddarpariaeth gydweithrediadol.
   c. Sicrwydd Ansawdd gweithgareddau cydweithrediadol y Brifysgol ym Mhrydain ac yn rhyngwladol, a sicrhau bod PA a'i sefydliadau partner yn cwrdd â gofynion Cod Ansawdd y DU yng nghyswllt y ddarpariaeth gydweithrediadol.
   d. Ymgeisio am weithgareddau cydweithrediadol, eu hasesu, ac adolygu'r holl drefniadau cydweithrediadol, a sicrhau bod yr holl ddogfennau perthnasol ar gael os gwneir cais i'w hadolygu.
   e. Monitro ac adolygu portffolio'r amrywiol ddarpariaeth cydweithrediadol yn unol â'r gweithdrefnau a'r amserlenni a welir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.
   f. Sicrhau bod yr holl weithgaredd cydweithrediadol yn cwrdd â disgwyliadau a gofynion UKVI, ac unrhyw ofynion cyfreithiol.
   g. Diogelu profiad y myfyriwr o fewn y trefniadau cydweithrediadol.

Gweithredu

Gall y pwyllgor ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Bwrdd Academaidd, y Bwrdd Denu Myfyrwyr a Marchnata, neu'r Bwrdd Ymchwil.